

Cyflogau staff cymorth Aelodau

Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 14(4) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 8 Rhagfyr 2022, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad mewn perthynas â chyflogau a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd o dan adrannau 20(2) a 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd yw bod yr holl staff cymorth a gyflogir gan Aelodau'r Senedd yn cael swm ychwanegol, anghyfunol o £600, pro rata, a hynny i adlewyrchu eu horiau gwaith dan gontract fel ar 8 Rhagfyr 2022. Bydd y taliad yn cael ei wneud fel rhan o gyflogau mis Ionawr 2023.

Gofynion o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

O dan amgylchiadau arferol, mae'r Bwrdd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu costau y mae'r Aelodau (neu grwpiau) yn mynd iddynt yn rhinwedd cyflogi staff heb fod yn fwy nag unwaith ar gyfer pob blwyddyn ariannol (fel yr amlinellir yn adran 14(2) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010")).

Yn unol ag adran 14(3) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 14(2) o Fesur 2010 beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr amgylchiadau economaidd presennol ac yn benodol bod y DU yn profi cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym. Mae Nodiadau Esboniadol Mesur 2010 yn benodol yn nodi bod cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym yn enghraifft o amgylchiadau eithriadol.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhoddodd y Bwrdd sylw i'r egwyddorion arweiniol a nodir yn Strategaeth y Bwrdd ar gyfer 2021-2026. Yn benodol, yn unol ag egwyddor arweiniol y Bwrdd, sef sicrhau bod ei benderfyniadau yn briodol yng nghyd-destun enillion Cymru, trafododd y Bwrdd wybodaeth am dueddiadau cyflog presennol yng Nghymru a'r DU. Fe wnaeth y Bwrdd drafod ystadegau economaidd ehangach hefyd.

Mae'r datganiad hwn yn ddatganiad ysgrifenedig i Gomisiwn y Senedd at ddibenion adran 14(4) o Fesur 2010.